CEFNDIR

# Y diweddaraf am ystadegau teithio domestig Prydain Fawr

Bydd nifer o newidiadau yn helpu i ddiogelu'r arolygon yn y dyfodol ac yn rhoi mwy o gysondeb gyda gwybodaeth ar gyfer cyrchfannau eraill.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 11 Hydref 2021

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 11 Hydref 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cefndir

Sut defnyddir yr wybodaeth

Crynodeb o newidiadau diweddar

Cyfiawnhad dros newid

Dull a sampl yr arolwg

Diffinio teithiau

Gwybodaeth a gesglir

Amcangyfrif a phwysoli

Sicrhau ansawdd

Adrodd

Cymaroldeb

Dynodiad

Rhagor o wybodaeth

Atodiad 1: cwestiynau'r arolwg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cefndir

Mae Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) ac Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr (GBDVS) yn arolygon defnyddwyr cenedlaethol sy’n mesur nifer a gwerth teithiau twristiaeth domestig dros nos a theithiau undydd domestig trigolion Prydain Fawr. Maent yn rhoi gwybodaeth fanwl am nodweddion y teithiau a’r ymwelwyr sy’n ymwneud â phob agwedd ar dwristiaeth, fel gwyliau, ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau a theithiau at ddibenion busnes a dibenion eraill. Dyma’r arolygon mwyaf a mwyaf cynhwysfawr o deithiau domestig poblogaeth Prydain Fawr.

Er bod yr ystadegau teithio domestig wedi cael eu paratoi mewn ffordd eithaf tebyg ers 1989, mae’r dulliau o gynnal yr arolygon GBTS/GBDVS a’r wybodaeth sy’n cael ei chasglu drwy’r rhain wedi newid mewn ymateb i amgylchiadau sy’n newid. Cyn 2020, maent wedi gweithredu fel arolygon annibynnol ar wahân gyda GBTS yn cael ei gynnal fel arolwg wyneb yn wyneb parhaus yn y cartref ers 2006 a GBDVS yn cael ei gynnal fel arolwg ar-lein ers 2011.

## Sut defnyddir yr wybodaeth

Mae'r arolygon yn darparu gwybodaeth at y dibenion canlynol.

- Darparu amcangyfrifon swyddogol o dwristiaeth ddomestig trigolion Prydain Fawr.
- Cadw golwg ar newidiadau mewn perfformiad cyrchfannau dros amser, gan gynnwys gwledydd Prydain Fawr, NUTS1, daearyddiaeth siroedd ac Awdurdodau Lleol.
- Darganfod tueddiadau yn y farchnad a newid yn anghenion ymwelwyr.
- Galluogi dadansoddi perfformiad yn ôl mathau perthnasol o deithiau.
- Galluogi dadansoddi ymddygiad o ran teithiau yn ôl segmentau marchnad a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

demograffig allweddol.
- Sicrhau bod modd cymharu data ar draws Prydain Fawr yn ei chyfanrwydd.
- Rhoi'r data perthnasol i Sefydliadau Rheoli Cyrchfannau ac awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu asesu'r effaith economaidd.
- Darparu mewnbwn ystadegol i wahanol fodelau ar gyfer yr economi ymwelwyr gan gynnwys yr Is-gyfrif Twristiaeth.
- Darparu gwybodaeth ar gyfer adrodd mewn cyhoeddiadau swyddogol gan gyrff y DU a chyrff rhynglywodraethol fel UNWTO.

Mae'r wybodaeth o'r arolygon yn cael ei defnyddio gan lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ac amrywiaeth eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn niwydiant twristiaeth y DU. Defnyddir yr wybodaeth a'r tueddiadau er mwyn deall y farchnad ddomestig yn well, gan helpu i lywio eu strategaethau, eu polisïau a'u gweithgareddau.

# Crynodeb o newidiadau diweddar

Yn 2019/20, dechreuodd noddwyr arolygon GBTS a GBDVS; Croeso Cymru, Visit England a Visit Scotland adolygu cwmpas a dulliau'r arolygon, cyn cyhoeddi tendr am gontract newydd ar gyfer arolygon ymwelwyr domestig dros nos ac undydd.

Mae'r adolygiad wedi arwain at nifer o newidiadau a fydd yn helpu i ddiogelu'r arolygon yn y dyfodol a darparu mwy o gysondeb gyda gwybodaeth ar gyfer cyrchfannau eraill, gan gynnal dibynadwyedd a chadernid yr wybodaeth sy'n cael ei hadrodd.

Ceir rhestr o'r newidiadau hyn isod gyda rhagor o wybodaeth yn yr adrannau sy'n dilyn.

- Integreiddio'r arolygon mewn un arolwg cyfun.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Newid y dulliau arolygu, gan ddefnyddio methodoleg ar-lein ar gyfer y ddau.
- Diffiniadau diwygiedig ar gyfer y prif fesurau ar gyfer teithiau.
- Cwestiynau wedi’u diweddaru a chasglu gwybodaeth yn well.
- Dulliau dilysu data wedi’u diweddaru a dulliau diwygiedig ar gyfer amcangyfrifon teithiau a gwariant.
- Adroddiadau gwell i ddiwallu anghenion defnyddwyr gan gynnwys bodloni gofynion hygyrchedd.
- Newid i ddynodiad amcangyfrifon yr arolwg.

# Cyfiawnhad dros newid

Nododd yr adolygiad, a gynhaliwyd dan arweiniad noddwr, nifer o ffactorau a oedd, gyda’i gilydd, yn rhoi sail resymegol gref dros ddiweddaru dulliau a chynnwys y ddau arolwg domestig.

Roedd cyfuniad o gyfraddau ymateb is, costau gwaith maes uwch a’r nifer cyfyngedig o gyflenwyr a oedd yn cynnig arolwg omnibws addas yn y cartref yn golygu nad oedd yr arolwg a arferai gael ei gynnal wyneb yn wyneb ar gyfer GBTS yn ymarferol mwyach. Roedd hyn yn gyfle i gyfuno’r ddau arolwg yn arolwg cyfun ar-lein a oedd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd o ran costau ac arolygon. Roedd hefyd yn golygu bod modd cymharu canlyniadau’r ddau arolwg yn well. Ar yr un pryd, cafwyd cyfle i ddatblygu’r holiadur er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ei lenwi ac er mwyn cyd-fynd â newidiadau mewn ymddygiad teithio. Mae’r dull ar-lein yn cynnig hyblygrwydd i gasglu gwybodaeth ychwanegol dros amser i fodloni gofynion defnyddwyr sy’n newid. Rydym yn rhagweld y bydd yr arolwg newydd yn darparu gwybodaeth gyfoethocach am broffiliau teithiau a theithio, adroddiadau mwy amserol ar allbynnau a gallu dadansoddi a chwestiynu’r canlyniadau yn well.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dull a sampl yr arolwg

Cyfunwyd y ddau arolwg yn un arolwg ar-lein. Mae hyn yn cynrychioli newid yn null yr arolwg ar gyfer GBTS, ond mae'r GBDVS yn parhau i gael ei gynnal yn yr un dull, sef ar-lein. Mae'r arolwg yn defnyddio holiadur newydd, gydag adrannau wedi'u rhannu ar broffiliau ymatebwyr a mynd ar deithiau yn gyffredinol. Caiff ymatebwyr eu cyfeirio i naill ai gwblhau'r adran fanwl ar deithiau undydd neu'r adran ar ymweliadau dros nos. Mae defnyddio'r un ffynhonnell sampl a holiadur yn rhoi cyfle i ddeall y berthynas yn well rhwng teithiau undydd ac aros dros nos

Daw'r sampl ar gyfer yr arolwg cyfun gan bum darparwr panel ar-lein sydd wedi'u hachredu gan ESOMAR ac mae'n cynnwys cwotâu ar gyfer newidynnau demograffig allweddol a rhanbarth preswylio er mwyn gwneud y sampl gyfan mor gynrychiadol â phosibl o boblogaeth Prydain Fawr. Y nod yw cynnal cadernid yr arolygon blaenorol, gyda'r targedau canlynol o ran nifer y cyfweliadau cyswllt.

### Nifer targed y cyfweliadau cyswllt

| Arolwg | Prydain | Lloegr | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **GBDVS bob blwyddyn** | 35,000 | 25,000 | 5,000 | 5,000 |
| **GBDVS bob mis** | 2,696 | 1,924 | 384 | 384 |
| **GBTS bob blwyddyn** | 60,000 | 42,000 | 9,000 | 9,000 |
| **GBTS bob mis** | 4,616 | 3,232 | 692 | 692 |

Mae'r arolwg yn cael ei gynnal bob wythnos gyda'r un cyfnodau galw yn ôl a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae ymatebwyr GBTS yn cael eu holi am deithiau dros nos yn ystod y 4 wythnos diwethaf ac ymatebwyr GBDVS yn cael eu holi am y teithiau undydd yn yr wythnos flaenorol.

## Diffinio teithiau

Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau newydd i helpu i gysoni mesurau allweddol teithiau, nosweithiau a gwariant gyda diffiniadau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ar gyfer teithiau twristiaeth undydd a thros nos. Mae'r gwaith hwn yn parhau ond gall arwain at addasu'r diffiniadau o deithiau undydd a thros nos i eithrio teithiau sy'n rhan o drefn arferol bywyd bob dydd pobl. Bydd hyn yn golygu bod modd adrodd yn fwy cywir ar deithiau sy'n benodol i dwristiaeth ac yn ei gwneud yn haws cymharu â theithiau sy'n cael eu hadrodd gan gyrchfannau eraill gan ddefnyddio'r diffiniadau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol.

## Gwybodaeth a gesglir

Roedd angen newid y set o gwestiynau, y sgript a thrywydd yr arolwg newydd ar gyfer y dull newydd cyfun o gynnal arolwg ar-lein. Mae'r holiadur wedi'i ailgynllunio i'w gwneud yn haws i ymatebwyr gwblhau'r arolwg a gwella dibynadwyedd y data a gesglir. Cyn belled ag y bo modd, mae cysondeb â'r wybodaeth a oedd yn cael ei chasglu'n flaenorol. Ond, mae cwestiynau newydd yn casglu gwybodaeth am deithiau y tu allan i'r DU, gwybodaeth fanylach am y gweithgareddau sy'n cael eu gwneud, gwybodaeth fanylach am ddulliau archebu ac amserlenni a gwybodaeth well am broffiliau ymatebwyr gan gynnwys nodweddion gwarchodedig.

Ceir rhestr o'r wybodaeth a gesglir yn **atodiad A**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Amcangyfrif a phwysoli

Mae ansawdd y data a gesglir drwy'r arolwg yn cael ei sicrhau wrth brosesu er mwyn tynnu cofnodion annilys a chywiro unrhyw ddata sydd ar goll, data anghyflawn neu allanolion. Cyflwynwyd cynllun pwysoli diwygiedig i wella effeithlonrwydd, gan sicrhau bod y canlyniadau mor gynrychiadol â phosibl o boblogaeth Prydain Fawr. Fodd bynnag, mae defnyddio sampl ar-lein heb fod ar sail tebygolrwydd yn cyfyngu i ba raddau y mae'r ymatebion i'r arolwg yn wirioneddol gynrychioli poblogaeth gyfan Prydain Fawr, sy'n gyfyngiad ar bob arolwg sampl ar-lein.

# Sicrhau ansawdd

O ystyried y newidiadau i'r arolygon, mae'r noddwyr wedi gofyn am adolygiad annibynnol gan Wasanaeth Dulliau a Chynghori y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a oedd yn edrych yn fanwl ar ddull yr arolwg newydd, dyluniad y sampl a'r dull amcangyfrif a phwysoli.

Roedd y prif argymhellion yn awgrymu rhagor o ddadansoddi er mwyn: cefnogi'r dulliau pwysoli ac amcangyfrif, gwirio am ragfarn bosibl yn y ffynonellau sampl ac egluro i ddefnyddwyr beth yw effaith y newidiadau i ddulliau'r arolwg a chyfyngiadau'r data sy'n deillio o hynny. Mae'r gwaith hwn yn parhau ond disgwylir iddo gael ei gwblhau cyn diwedd 2021.

# Adrodd

Roedd COVID-19 wedi arwain at ohirio dechrau'r arolwg newydd yn 2020, ond casglwyd data rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2020. Cafwyd bwlch arall yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

y broses o gasglu data rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021 oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ar lefel genedlaethol. Ond, mae’r gwaith o gasglu data wedi ailddechrau’n llwyr ers mis Ebrill 2021.

Gan mai ychydig iawn o ddata sydd ar gael ar gyfer 2020, rydym yn cynnig trin y cyfnod fel treial ac rydym yn ystyried pa ddata y gellid eu cyhoeddi sy’n ddefnyddiol, os o gwbl. Bydd yr adroddiad llawn ar ganfyddiadau’r arolwg newydd yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o fis Ebrill 2021 ymlaen.

Mae'r adroddiad hwn wedi dirwyn i ben a bydd data yn y dyfodol yn cael eu hadrodd fel rhan o gyfres gyfunol o'r enw 'Ystadegau twristiaeth Prydain Fawr'. Bydd data ar gyfer ymweliadau dros nos yn 2021 yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2022 a bydd data ymweliadau dydd 2021 yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022.

Mae'r newid hwn o ganlyniad i gyfuniad o newid methodolegol cynlluniedig a’r amharu a fu ar gasglu data a achoswyd gan gyfyngiadau teithio sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Rydym yn cynhyrchu set newydd a gwell o amcanion adrodd, gan gynnwys adroddiadau misol a blynyddol gwell i’w cyhoeddi gan y cyrff noddi a dangosydd data newydd i alluogi defnyddwyr i ddadansoddi’r data eu hunain.

## Cymaroldeb

Mae’r newidiadau sylweddol i ddull yr arolwg a’r wybodaeth sy’n cael ei chasglu o’r arolygon yn debygol o arwain at newid sylweddol yn y mesurau teithio a gwariant a gofnodwyd. Hefyd, mae unrhyw newidiadau mewn ymddygiad o ran teithio o ganlyniad i COVID-19 yn effeithio ymhellach ar hyn. Bydd hyn yn cyfyngu ar ein gallu i gymharu canlyniadau’r arolwg newydd â data GBTS a GBDVS a gofnodwyd ar gyfer 2019 a’r blynyddoedd sydd i ddod. Felly, rydym yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

argymell mai 2021 yw dechrau cyfres newydd o dueddiadau. Fodd bynnag, bydd adroddiadau a data ar gyfer yr arolygon cyn 2019 yn parhau i fod ar gael drwy wefannau noddwyr yr arolwg. Byddwn hefyd yn ystyried a oes modd ailgalibradu canlyniadau'r arolwg newydd gyda'r arolwg blaenorol.

## Dynodiad

Mae'r ystadegau GBTS a GBDVS a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u dynodi'n Ystadegau Swyddogol, sy'n adlewyrchu eu pwysigrwydd i ddefnyddwyr ac ansawdd y dulliau a'r allbynnau. Oherwydd y newidiadau sylweddol i'r ystadegau, byddant yn cael eu dynodi'n Ystadegau Arbrofol er mwyn gallu datblygu arolygon ymhellach, sicrhau ansawdd a sicrhau bod amcanion yr arolwg newydd yn diwallu anghenion defnyddwyr. Mae hon yn weithdrefn safonol ar gyfer unrhyw newid mewn Ystadegau Swyddogol a'r nod yw dychwelyd at ddynodiad Ystadegau Swyddogol o fewn dwy flynedd.

## Rhagor o wybodaeth

**Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr**

**Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr**

Ochr yn ochr â'r amcanion adrodd newydd, bydd noddwyr yr arolwg yn cyhoeddi Adroddiadau Ansawdd Cefndirol ar gyfer yr arolygon newydd, gan nodi rhagor o fanylion am ddulliau'r arolwg, gweithdrefnau sicrhau ansawdd a chanllawiau i ddefnyddwyr yr arolygon.

Yn y cyfamser, i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
David Stephens

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Uwch-reolwr Ymchwil a Deall
Croeso Cymru
E-bost: **ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru**

# Atodiad 1: cwestiynau'r arolwg

## Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr

- Teithiau dros y 4 wythnos diwethaf ym Mhrydain Fawr
- Pa mor rheolaidd aed ar y daith
- Diben y daith
- Cyfnod aros
- Y math o leoliad yr arhoswyd yno
- Math o lety
- Cyfuniad a maint y parti
- Namau ar unigolion yn y parti a oedd yn teithio
- Cludiant i'r gyrchfan ac o amgylch y gyrchfan
- Gweithgareddau manwl a gyflawnwyd
- Pwysigrwydd gweithgaredd wrth benderfynu ar y daith
- A oedd yn rhan o daith pecyn
- Faint ymlaen llaw archebwyd y daith
- Sianel archebu
- Dadansoddiad o'r gwariant fesul categori

## Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yr wythnos diwethaf
- Pa mor rheolaidd aed ar y daith undydd
- Teithiau undydd sy'n cynnwys gweithgareddau penodedig
- Am ba hyd wnaeth y teithiau barhau – gan gynnwys/heb gynnwys amser

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

teithio
- Y math o leoliad yr ymwelwyd ag ef
- O ble ddechreuodd y daith ee, o'r cartref
- Cyfuniad a maint y parti
- Namau ar unigolion yn y parti a oedd yn teithio
- Y prif gludiant a ddefnyddiwyd
- Gweithgareddau manwl a gyflawnwyd
- Amser a dreuliwyd yn teithio yn ystod y daith
- Dadansoddiad o'r gwariant fesul categori

## Demograffeg

- Rhywedd
- Rhanbarth preswylio
- Oedran
- Lefel galwedigaeth
- Plant ar yr aelwyd
- Statws priodasol
- Perchnogaeth car
- Amser a dreulir ar-lein
- Cyrhaeddiad addysgol

## Grwpiau gwarchodedig

- Grŵp ethnig
- Namau/cyflyrau iechyd
- Cyfeiriadedd rhywiol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Teithio allan

Teithiau y tu allan i'r DU yn ystod y 4 wythnos diwethaf yn ôl diben yr ymweliad

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-diweddaraf-am-ystadegau-teithio-domestig-prydain-fawr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.